# YSTYRIWCH Y GWYDDAU

## meddai EMYR WYN JONES

**Nid oes adnod yn honni fod neb wedi dweud, 'Ystyriwch y gwyddau,' — ond dyma fi'n gwneud.**

MAE'n gryn gysur cael llain o dir ysgrythurol-gadarn dan ei draed pan mae dyn yn mentro trafod testun sy'n ymddangos mor benagored ac anaddawol. Oni roddwyd siars i'r Cristnogion cyntaf: 'Ystyriwch lili y maes,' (Mathew VI, 28; a Luc XII, 27)? Yn fwy perthnasol, mae'n debyg, yn y cyswllt presennol oni chawsont gyfarwyddyd hefyd i 'ystyried y brain' (Luc XII, 24)? Bu'r lili yn anogaeth i rai o'n hemynwyr, ond fe gafwyd ymateb i'r apêl ar ran y brain a'r lili mewn dwy gerdd gan Syr Thomas Parry-Williams. Meddai yn y cwpledi olaf:

*Y mae adnod yn honni fod Crist wedi dweud,*
*'Ystyriwch y brain,' — a dyma fi'n gwneud.*

A geiriau olaf y chwaer-gerdd oedd:

*Mae'r Ysgrythur yn tystio i'r Iesu ddweud,*
*'Ystyriwch y lili,' — ac wele wneud.*

Teimlais innau nad anaddas oedd rhoi ychydig ystyriaeth i destun cyffelyb — y gwyddau, ond nid ar gân.

Sylweddolwyd ar unwaith mai prin iawn yw'r cyfeiriadau ysgrythurol at y da pluog dof er bod ieir wedi ymgartrefu yng ngwlad Canaan yn fuan ar ôl y caethglud. Daeth ieir yno o India a Phersia ar eu ffordd i ymwasgaru trwy Ewrop. Er eu bod yn niferus iawn erbyn y cyfnod Cristnogol, dau gyfeiriad yn unig a welir atynt, sef y geiriau adnabyddus yn Matthew XIII, 37: 'megis y casgl iâr ei chywion dan ei hadenydd'. Ac fe welir yr union eiriau yn Luc XIII, 34. Nid oes angen ymhelaethu am 'ganiad y ceiliog', na'i arwyddocâd.

Tawedog iawn yw'r Hen Destament hefyd. Gwelir yr unig gyfeiriad o bwys yn I Brenhinoedd IV, 22, lle y sonnir am: 'bwyd (Llys) Solomon — peilliad . . . blawd . . . ychain . . . defaid . . . ac ednod breisio n', sef ffowls pasgedig, mae'n bur sicr. Nid oes sôn yn y cyswllt yma, nac yn unman arall am fodolaeth na hwyaid na gwyddau. Fodd bynnag, teimlir fod y gwyddau yn llawer mwy haeddiannol o 'ystyriaeth' na'r brain, oblegid asesiad anghymeradwyol iawn a gawsant hwy — er mor drawiadol ydoedd — gan y bardd. Meddai amdanynt:

*Hen adar castiog, cableddus, croch . . . fel cacwn mewn bysedd cŵn . . . (yn) ffraeo â'i gilydd gan ddweud y drefn fel cari-dyms yr ystrydoedd cefn.*

Mae elfen arall o gyfochredd yn y sefyllfa oblegid fe welodd R. Williams Parry yn dda gyfansoddi 'Y Gwyddau', cerdd a haeddodd le yn *The Oxford Book of Welsh Verse* (Rhif 270). Sonnir ynddi am y gwyddau a'u 'gwawdlyd orymdaith', ac am eu 'hunfryd grechwen gwamal'. Yna rhoddir cyngor dwys iddynt: 'ond ar esgyll llydain ffowch'. Tarddiad pryder y bardd oedd ansicrwydd y dyfodol i'r gwyddau, a'r tebygolrwydd iddynt gael eu trawsffurfio ac ail-ymddangos yn y man 'yn saig amheuthun' ar fwrdd Nadolig yn rhywle. Pe bai'r olygfa wedi ei gosod yn Ffrainc ni fyddai'r 'golwg angau' yn gyfyngedig i 'Ragfyr drwy frigau'r coed'. Yno maent mewn perygl parhaus unrhyw adeg o'r flwyddyn — pan wedi pesgi digon — o gyfarfod diwedd annhymig, a therfynu eu hoedl dan labed *'paté de foie gras'*.

*   *   *   *

Hyd yn oed erbyn y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd roedd yna nifer o rinweddau ymarferol yn parhau'n gysylltiedig â gwyddau, ond mae'n sicr na ddefnyddir mohonynt bellach. Yr adeg honno gofelid ymhob cartref gwladaidd fod llestr pridd yn llawn o saim gŵydd wrth law — a darn o lechen yn gaead arno. Pan oedd gan aelod o'r teulu lid yn bygwth ar y tonsil y driniaeth oedd iro'r gwddf oddi allan â'r saim gŵydd, ac yna lapio hosan lân o'i amgylch a'i sicrhau â phin cau. Os oedd arwyddion yn awgrymu fod yr haint yn ymestyn i'r ysgyfaint y drefn oedd rhwbio'r frest gyda'r saim, a wedyn gosod arno drwch o wlân cotwm ac angori hwnnw yn ei le â thâp.

Pan nad oedd cyfraniad lliniarus y saim gŵydd yn gwbl foddhaol nid oedd gan y claf — plentyn fel rheol — ddim i'w ddisgwyl ond gorfod dioddef artaith chwilboeth y powltis blawd had llin. Profiad sy'n dal i serio cof rhai sy'n hynafgwyr erbyn hyn! Bu gorfod aros am flynyddoedd nes y darganfydd-wyd triniaethau llawer mwy effeithiol, gyda'r sulphonamidiau a'r antibiotigau, er sicrhau adferiad didramgwydd i'r dioddefydd.

Tua'r un adeg, a chynt na hynny mae'n siŵr, roedd gwyddau — neu rannau ohonynt beth bynnag — yn ddefnyddiol mewn ffyrdd llai cyffrous o lawer. Fe welid ymhob bwthyn yn y cyfnod didrwst cyn-hwferaidd hwnnw bâr o esgyll gŵydd, a'u presenoldeb yn gwarantu y symudid pob llychyn o'r conglau mwyaf anghyffordd. Byddai'n arferiad hefyd gan y plant ddefnyddio rhai o'r 'esgyll llydain' er gwneud plufyn ysgrifennu â nifer o'r cwilsynnau praff. Y dechneg oedd torri'r cwilsyn â chyllell finiog, gwneud hollt fechan yn y meinbig i'w droi yn nib ac yna ei berffeithio yn ôl yr awydd. O wneud toriad ar letraws roedd yn hawdd ffurfio llythrennau ar batrwm sgript italaidd. Ac oni fyddai'r bechgyn yn gosod pluen fechan ym môn di-frath y saeth yn gymorth, pan ollyngid y bwa, i daro'r targed?

Pwysicach o lawer, yn fasnachol a chymdeithasol, oedd yr arferiad o bluo'r gwyddau tua phedair gwaith y flwyddyn, a defnyddio'r manblu esmwyth i lenwi gobenyddion a chlustogau afrifed. Fe ymddengys fod yr ŵydd yn un o'r anifeiliaid cyntaf i gael eu dofi. Daeth o werth marsiandïol mawr a pheth cyffredin ar un adeg oedd gweld ffermwyr cefnog yn magu haid yn rhifo rhai cannoedd ar eu tir dan ofal heusor. Ei waith ef oedd sicrhau digon o ddŵr a digonedd o laswellt ar eu cyfer, a'u hamddiffyn rhag mynd yn ysglyfaeth i reibwyr — boed hwy'n ddeudroed neu'n bedwarcarnolion.

Erbyn diwedd Hydref neu ddechrau Tachwedd roedd y porthmyn yn brysur yn gyrru'r gwyddau yn heidiau i'r marchnadoedd cyfagos. Cyn dechrau'r siwrnai roedd yn rhaid diogelu traed y gwyddau trwy eu trochi mewn pyg, a gadael i hwnnw sychu a chaledu nes ffurfio 'esgidiau'. Fe ddywedir mai tua milltir yr awr oedd 'cyflymdra' yr orymdaith, ac fe gyfyngid yr ymlusgo hamddenol a thrystfawr i tua naw awr y dydd. Roedd profiad o'r fath yn dreth ar amynedd a chlustiau'r gyrwyr. Anelid at y dre farchnad agosaf oherwydd y byddai siwrnai faith yn diosg braster y gwyddau, gan adael ar ôl onid cysgod o'r helaethrwydd archwaethol a enynnodd bryder y bardd, ac a symbylodd ei gerdd. Soniodd, fel y nodwyd, am 'wawdlyd orymdaith' y gwyddau a'u 'hunfryd grechwen gwamal', a dyma'r union gymwysterau sy'n eu galluogi i weithredu fel amddiffynwyr trahaus pob maes a buarth.

Ar y llaw arall nid yw'r gerdd yn cymryd sylw o arwyddocâd ac arbenigrwydd y gwyddau. Neges y bardd oedd mynegi ei ofid oherwydd y posibilrwydd o'u taith i'r 'Farchnad Fawr' a'u tranc cynamserol. Nid yw'n sôn fod gwyddau wedi ennill statws o barch ers amser maith, ac wedi eu gosod ymhlith y duwiau mewn gwledydd mor wasgarog â Groeg, yr Aifft, Gogledd America a'r Dwyrain Pell. Ac oni chafodd y gwyddau eu hawr fawr orchestol bron ddwy fil a hanner o flynyddoedd yn ôl, a hynny yn Rhufain ei hun?

Ymddengys nad yw'r hen stori glasurol mor gynefin erbyn hyn ag y bu, felly dyma amlinelliad byr ohoni. Ar ôl i wŷr Gâl drechu'r llengoedd Rhufeinig ym mlwyddyn 390 C.C. bu agos iawn iddynt gipio'r brifddinas hefyd, oblegid ffodd ei thrigolion gan adael y lle yn anghyfannedd. Ciliodd y rhelyw — yr uchelwyr, y senadurion a chwmni o filwyr — i deml Iau ar y Capitol, a chanlyniad anochel y gwarchae arnynt oedd newyn. Er mor ddirdynnol y chwant bwyd ni chyffyrddwyd â'r gwyddau oblegid eu bod mewn perthynas unigryw â'r deml, ac roedd iddynt statws o sancteiddrwydd.

Un noson dywell bu agos i nifer o wŷr Gâl gyrraedd brig craig y Capitol, heb na tharfu'r gwylwyr na deffro'r cŵn. Munudau tyngedfennol yn hanes yr Ymerodraeth! Yn rhagluniaethol cynhyrfodd y gwyddau mewn pryd. Nid 'gwamal' bellach oedd eu dadwrdd, ond yn hytrach gyfrwng amhrisiadwy i ddeffro'r gwarchodlu cysglyd. Achubwyd y Capitol, ailfeddiannwyd y ddinas ac fe adferwyd Rhufain.

O ganlyniad ymledodd yr Ymerodraeth, estynnwyd ei thiriogaethau a'i dylanwad ac ni fachludodd ei rhwysg am fil o flynyddoedd. Yn ystod y cyfnod maith hwn nid aeth yn angof gan breswylwyr Rhufain eu dyled i'r gwyddau. Sicrhaodd eu gwyliadwriaeth eu hanfarwoldeb hefyd. Daeth yr hanes yn rhan annatodol o lên gwerin yr Ymerodraeth.

*   *   *   *

Yn lled ddiweddar, tra'n parhau i 'ystyried y gwyddau', daethpwyd o hyd i gyfeiriad at hynodrwydd arall yn perthyn iddynt — nodwedd anghyffredin os nad unigryw, a gwerinol oedd ei darddiad. Oherwydd ei newydd-der, a'r ffaith fod gogwydd 'meddyginiaethol' iddo, enynnodd y dadleniad gryn ddiddordeb.

Bron ddwy ganrif a hanner yn ôl roedd 'Yr Hen Feddyges' — Anne Griffiths, Bryn Canaid — yn defnyddio ei doniau iachaol yn Aberdaron a'r ardaloedd cyfagos ym mhen pellaf Llŷn. Un